# ADRODDIAD YMGYNGHORI

**Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Gynradd Betws**

# Atodiad A

## Rhestr o’r rhai a ymatebodd i’r Ddogfen Ymgynghori

**Ysgol Gynradd Betws - rhestr o'r sylwadau a ddaeth i law**

| Rhif | Enw | Swydd/Categori'r Ymatebwr |
|---|---|---|
| **1** | Christopher Morgan | |
| **1.1** | Sheena Steel | |
| **1.2** | Catrin James | Aelod Staff |
| **1.3** | Cerith Griffiths | Cyngor Cymuned Betws |
| **1.4** | Carys Wilcox | |
| **1.5** | Annie Sizmur | |
| **1.6** | Y Cyng. Ryan Bartlett | |
| **1.7** | Magdalena Zacharska | Rhiant |
| **2** | Dr. John D. Evans | Llywodraethwr |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Atodiad B

**Crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law ar ôl i'r Ddogfen Ymgynghori gael ei chyhoeddi ac ymatebion cysylltiedig yr Awdurdod Lleol**

| CATEGORI | SYLW | YMATEB |
|---|---|---|
| **Rhif 1** | **Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11**<br><br>**Cytuno â'r cynnig**<br>1. O ran newid yr ystod oedran yn Ysgol Gynradd Betws, byddwn yn cefnogi'r newid hwn gant y cant. Nid yn unig byddai'r newid yn fantais i'r ysgol, trwy ei gwneud hi'n gyfartal ag ysgolion eraill yn yr ardal sydd â'r ddarpariaeth hon, ond byddai hefyd yn helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt trwy ddarparu addysg amser llawn i'w plant o dair oed.<br><br>1.1 Cytunaf yn gryf â'r cynnig i newid Ysgol Betws yn ysgol addysgol 3-11. Bydd yn cynnig cydraddoldeb gydag ysgolion eraill yn y rhanbarth sy'n cynnig yr un peth; cyfnod pontio didrafferth o Ddechrau'n Deg i'r meithrin yn Ysgol Betws; mae'n rhoi cyfle i rieni ddychwelyd i'r gwaith; bydd deilliannau dysgwyr yn gwella o integreiddio dysgwyr i amgylchedd dysgu priodol yn ifanc. Mae'n rhoi cyfle i'r plant ddechrau dysgu Cymraeg yn ifanc.<br><br>1.2 Cytunaf yn gryf â'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Betws i 3-11. Mae'n gwneud synnwyr bod disgyblion Dechrau'n Deg a Chylch y Felin yn dechrau'r ysgol yn dair oed. Bydd yn gyfnod pontio didrafferth o un dosbarth i'r nesaf. Mae digon o le yn y Meithrin yn yr ysgol ar gyfer disgyblion tair oed. Mae'n rhoi'r un cyfle i ddisgyblion Ysgol Betws â disgyblion Ysgol Gymraeg Rhydaman gan fod y rheiny'n mynd i Ysgol Feithrin Rhydaman. Bydd dechrau'r ysgol yn dair oed yn rhoi cychwyn cadarn i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol. Bydd yn | **Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11**<br><br>**Cytuno â'r cynnig**<br>1. Cafodd y gefnogaeth ei nodi.<br><br>1.1 Cafodd y gefnogaeth ei nodi.<br><br>1.2 Cafodd y gefnogaeth ei nodi. |

| | | |
|---|---|---|
| | caniatáu i rieni ddychwelyd i'r gwaith yn gynt. Bydd cychwyn addysg y disgyblion yn gynt yn cyfrannu at godi eu safonau addysgol. Bydd dechrau'r ysgol yn dair oed yn caniatáu i'r disgyblion ddysgu Cymraeg yn gynt.<br><br>1.3 Mae gan Betws feithrinfa Dechrau'n Deg i blant 2 a 3 oed, ac ar hyn o bryd mae bwlch rhwng gadael y feithrinfa a dechrau yn yr ysgol gynradd. Bydd darparu ar gyfer plant 3-11 oed yn llenwi'r bwlch hwn ac yn sicrhau bod plant Betws yn parhau yn y system addysg. Mae aelodau Cyngor Cymuned Betws yn argymell yn gryf bod yr ysgol yn cael ei dynodi'n un sy'n darparu ar gyfer plant 3-11 oed.<br><br>1.4 Cytunaf yn gryf â'r cynnig i newid Ysgol Betws yn sefydliad addysg 3-11 oed. Teimlaf y bydd yn fuddiol i'r plant ac i'r rhieni. Byddai'n rhoi cyfle i'r rhieni ddychwelyd i'r gwaith/addysg yn gynt. Byddai cyfnod pontio didrafferth o Ddechrau'n Deg i ddosbarth meithrin Ysgol Betws. Bydd yn rhoi cyfle i ddysgwyr o gefndir Saesneg ddechrau dysgu Cymraeg yn gynnar. Caiff dysgwyr eu hintegreiddio i amgylchedd dysgu priodol yn ifancach, sy'n golygu gwell deilliannau dysgu.<br><br>1.5 Cefnogaf yn gryf y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Betws o 4-11 i 3-11. Rhwng 3 a 4 oed, mae plant fel arfer yn barod iawn i ddod yn rhan o dîm, yn addysgol ac yn gymdeithasol. Byddai'r flwyddyn ychwanegol hon yn sylfaen dda iawn i'w cynnydd yn y dyfodol. Yn ogystal, gellid canfod problemau dysgu posibl a'u hachosion yn gynnar a darparu cymorth priodol. Gall fod buddion hefyd i les bywyd teuluol. | 1.3 Cafodd y gefnogaeth ei nodi.<br><br>1.4 Cafodd y gefnogaeth ei nodi.<br><br>1.5 Cafodd y gefnogaeth ei nodi. |

| | | |
|---|---|---|
| | 1.6 Cefnogaf y cynnig yn gryf. Bydd darparu ar gyfer plant 3-11 oed yn yr ysgol gynradd yn caniatáu i blant ifanc yn ardal Betws symud yn ddidrafferth o Ddechrau'n Deg i'r ddarpariaeth meithrin, ac ymlaen wedyn i'r Cyfnod Sylfaen. Mae'n bwysig bod plant Betws yn gydradd â phlant eraill yn yr ardal. Yn ystod y cynllun peilot, mae rhieni wedi cefnogi'r trefniant, gan fod llawer ohonynt eisiau dychwelyd i'r gwaith ac eisiau i'w plant fod mewn amgylchedd ysgol ysgogol. Rwyf yn gwbl hyderus y bydd deilliannau dysgwyr yn gwella o integreiddio dysgwyr i amgylchedd dysgu priodol yn ifancach. O gyflwyno'r disgyblion i'r ysgol yn ifancach, byddant hefyd yn cael eu trochi yn y Gymraeg yn gynt. Credaf yn gryf y dylid rhoi'r un cyfleoedd i blant Betws â disgyblion Rhydaman a Chamaman [*sic*], ac y dylai darpariaeth ar gyfer plant tair oed fod ar gael iddynt yn Ysgol Betws.<br><br>1.7 Gweler y llythyr hwn fel gwybodaeth gefnogol. Mae fy mab yn mynd i'r dosbarth meithrin a dechreuodd yno'n llawn amser yn 4 oed. Wrth edrych yn ôl, byddai wedi bod yn fwy buddiol i ni fel rhieni pe bai wedi dechrau yn yr ysgol yn 3 oed yn hytrach na mynd am 2.5 awr y diwrnod, a olygodd nad oedd modd inni weithio'n llawn amser o ganlyniad. Dylech ystyried hefyd bod gan ysgolion meithrin/cynradd eraill yn yr ardal y cyfleusterau lle mae plant yn dechrau'r ysgol yn 3 oed. | 1.6 Cafodd y gefnogaeth ei nodi.<br><br>1.7 Cafodd y gefnogaeth ei nodi. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adnoddau Ychwanegol**<br><br>2. Mae angen ateb pryderon ynghylch y goblygiadau i adnoddau. Sut caiff y newidiadau eu monitro? Mae gan yr ysgol lawer o blant ag anghenion arbennig eisoes. Pa gymorth ychwanegol a roddir? | **Adnoddau Ychwanegol – Ymateb yr ALl**<br><br>2 Caiff adnoddau staff eu dyrannu yn ôl nifer y disgyblion. Caiff y gymhareb staff/disgyblion ei bodloni. Caiff newidiadau eu monitro fel rhan o broses hunanwerthuso'r ysgol, a chaiff unrhyw bryderon eu monitro fel rhan o ymweliadau craidd yr awdurdod. Caiff cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei drafod a'i fonitro ar sail unigol. |

# Atodiad C

## YMATEB ESTYN I'R DDOGFEN YMGYNGHORI

**Ymateb Estyn i'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd a newid ystod oedran disgyblion yn Ysgol Gynradd Betws**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

**Cyflwyniad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Y cynnig yw newid ystod oedran Ysgol Betws o 4 – 11 i 3 – 11 cyn gynted ag y bo modd, er mwyn cynnwys darpariaeth meithrin.

**Crynodeb/ Casgliad**

Mae'n debygol y bydd y cynnig presennol yn cynnal darpariaeth addysg a deilliannau disgyblion yn yr ardal, o leiaf.

**Disgrifiad a buddion**

Mae'r cynigiwr wedi nodi rhesymwaith clir ar gyfer y cynnig. Mae hwn yn canolbwyntio mewn modd addas ar yr angen i newid ystod oedran yr ysgol i ddarparu ar gyfer disgyblion 3-4 oed. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn pontio'n ddi-dor o'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynnig hwn wedi'i osod mewn modd priodol yng nghyd-destun strategaeth ehangach y cyngor i ddarparu lleoedd meithrin a gynhelir ar gyfer plant sy'n cael budd o raglen Dechrau'n Deg ar hyn o bryd.

Mae'r cynnig yn nodi mai ei fudd pennaf yw sicrhau parhad darpariaeth i ddisgyblion ifanc yn ystod y cyfnod pontio o raglen Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen. Mae'n awgrymu'n rhesymol y byddai disgyblion mewn lleoliad meithrin yn cael budd o ymyriadau a ddarperir eisoes trwy ddarpariaeth Dechrau'n Deg yr ysgol. Nid yw'r cynigiwr yn nodi unrhyw anfanteision gyda'r cynnig hwn.

Yn briodol, mae'r cynigiwr yn cynnwys cyfeiriad at yr arolwg mwyaf diweddar o gyflwr yr adeiladau yn 2001 ac yn nodi bod y cyngor wedi moderneiddio ac ehangu'r ysgol.

Mae'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am hygyrchedd y safle i ddefnyddwyr ag anabledd ac yn nodi bod ei gyflwr a'i addasrwydd cyffredinol yn rhesymol. Mae'r cynnig yn cadarnhau'n briodol y bydd yr ysgol yn parhau i wasanaethu ei dalgylch presennol felly ni fydd unrhyw newid i drefniadau teithio'r disgyblion.

Mae'r cynnig yn rhoi dadansoddiad cryno o ragamcanion nifer disgyblion yr ysgol am y pum mlynedd nesaf. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gyfrifo gallu'r ysgol i ddarparu lle i 16 o ddisgyblion meithrin cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn darparu digon o wybodaeth ynghylch ble na sut y bydd yr ysgol yn cynnig y lleoedd ychwanegol hyn. Mae'r cyngor yn rhagweld y bydd nifer y lleoedd gwag yn yr ysgol yn gostwng o 27% ar hyn o bryd i lai na 20% erbyn 2020.

Nid yw'r cynnig yn darparu digon o wybodaeth ynghylch sut y bydd y cyngor yn rheoli unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig neu a oes unrhyw drefniadau addas eraill wedi cael eu hystyried neu eu diystyru.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth addas i effaith gadarnhaol y cynnig ar ddeilliannau a lles disgyblion. Mae'n esbonio mewn modd synhwyrol y bydd y cynnig yn gwella dilyniant a pharhad disgyblion, ar ôl gadael rhaglen Dechrau'n Deg, yn y ddarpariaeth meithrin, sy'n darparu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae hyn yn cynnwys hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth bwysig am anghenion a galluoedd disgyblion, er mwyn darparu lefelau priodol o ofal a chymorth. Fodd bynnag, gwybodaeth gyfyngedig a roddir yn y cynnig am yr effaith ar arweinyddiaeth a rheoli, yn arbennig ynghylch datblygu partneriaethau sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall rhwng yr ysgol a'r darparwr Dechrau'n Deg.

Mae'r cynnig yn cynnwys crynodeb defnyddiol o sut mae teuluoedd sy'n agored i niwed â phlant 2-3 oed yn cael budd o'r gwasanaethau a ddarperir gan raglen Dechrau'n Deg ar hyn o bryd. Mae'n rhoi gwybodaeth gyd-destunol berthnasol am gymuned yr ysgol, y dywed ei bod yn "ddifreintiedig ac wedi'i hamddifadu'n gymdeithasol", a'r ganran gymharol uchel o ddisgyblion y nodir bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn cysylltu'r wybodaeth hon yn ddigon clir i'r ffordd y bydd y cynnig yn dod â budd i'r disgyblion 3-4 oed yn y grwpiau hyn sy'n agored i niwed.

Mae'r cynigiwr wedi darparu crynodeb boddhaol o ddeilliannau'r adroddiad arolygu mwyaf diweddar gan Estyn a chategori presennol yr ysgol. O'r wybodaeth hon, mae'r cynigiwr yn casglu'n rhesymol bod yr ysgol yn effeithiol a bod ganddi ddealltwriaeth dda o'r meysydd mae angen eu gwella.

Ymateb Llywodraeth Leol i Estyn

**Mae'r cynnig yn rhoi dadansoddiad cryno o ragamcanion nifer disgyblion yr ysgol am y pum mlynedd nesaf. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gyfrifo gallu'r ysgol i ddarparu lle i 16 o ddisgyblion meithrin cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn darparu digon o wybodaeth ynghylch ble na sut y bydd yr ysgol yn cynnig y lleoedd ychwanegol hyn. Mae'r cyngor yn rhagweld y bydd nifer y lleoedd gwag yn yr ysgol yn gostwng o 27% ar hyn o bryd i lai na 20% erbyn 2020.**

114 oedd cyfrifiad lleoedd yn yr ysgol cyn derbyn disgyblion oed meithrin, ac 16 oedd nifer y derbyniadau ar ôl cyflwyno plant oed meithrin. Diwygiwyd y cyfrifiad lleoedd i gynnwys y disgyblion ychwanegol hyn, a gostyngodd nifer lleoedd yr ysgol i 104 o'r herwydd, gan sefydlu 14 lle yn y meithrin, ac felly'n lleihau nifer derbyniadau'r ysgol i 14 gan greu'r lle angenrheidiol.

**Nid yw'r cynnig yn darparu digon o wybodaeth ynghylch sut y bydd y cyngor yn rheoli unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig neu a oes unrhyw drefniadau addas eraill wedi cael eu hystyried neu eu diystyru.**

Cafodd Risgiau a Gwrthfesurau eu cynnwys yn y Wybodaeth Ychwanegol a anfonwyd at yr holl Randdeiliaid trwy e-bost ar 22/12/15.

**Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth addas i effaith gadarnhaol y cynnig ar ddeilliannau a lles disgyblion. Mae'n esbonio mewn modd synhwyrol y bydd y cynnig yn gwella dilyniant a pharhad disgyblion, ar ôl gadael rhaglen Dechrau'n Deg, yn y ddarpariaeth meithrin, sy'n darparu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae hyn yn cynnwys hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth bwysig am anghenion a galluoedd disgyblion, er mwyn darparu lefelau priodol o ofal a chymorth. Fodd bynnag, gwybodaeth gyfyngedig a roddir yn y cynnig am yr effaith ar arweinyddiaeth a rheoli, yn arbennig ynghylch datblygu partneriaethau sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall rhwng yr ysgol a'r darparwr Dechrau'n Deg.**

Bydd cynnwys y cynnig yn atgyfnerthu a gwella'r bartneriaeth bresennol mewn modd effeithiol ac ymarferol. Bydd yr holl bartneriaid yn cael budd o haenau ychwanegol cydweithredu a fydd yn bodoli i gynorthwyo ag anghenion dysgwyr unigol o dair oed ymlaen. Bydd effaith fuddiol a chynnydd y fath gydweithredu'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd partneriaeth gyswllt.

**Mae'r cynnig yn cynnwys crynodeb defnyddiol o sut mae teuluoedd sy'n agored i niwed â phlant 2-3 oed yn cael budd o'r gwasanaethau a ddarperir gan raglen Dechrau'n Deg ar hyn o bryd. Mae'n rhoi gwybodaeth gyd-destunol berthnasol am gymuned yr ysgol, y dywed ei bod yn "ddifreintiedig ac wedi'i hamddifadu'n gymdeithasol", a'r ganran gymharol uchel o ddisgyblion y nodir bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn cysylltu'r wybodaeth**

**hon yn ddigon clir i'r ffordd y bydd y cynnig yn dod â budd i'r disgyblion 3-4 oed yn y grwpiau hyn sy'n agored i niwed.**

Bydd y cynnig yn sicrhau buddion gwell i ddysgwyr 3-4 oed sy'n agored i niwed trwy ddarpariaeth amrywiol a gaiff ei chynllunio, ei monitro a'i hadolygu gan yr holl bartneriaid – gan gynnwys y disgyblion a'u rhieni. Mae'r cynigiwr yn ystyried y ddarpariaeth i'r holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd bregus, yn un continwwm cynhwysfawr, sy'n canolbwyntio'n llwyr ar anghenion a gofynion unigol.

# Atodiad D

## Ymgynghoriad â'r disgyblion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar 3 Chwefror 2016

gan

Mrs Mari Owen

Cynghorydd Cyswllt Her

Cyngor Sir Caerfyrddin

# Cyngor Sir Caerfyrddin

## Gwrando ar 'Lais y Dysgwr'

**Ysgol – Betws**

**Dyddiad: - 3 Chwefror 2016**

**Cynhaliwyd y sesiwn gan Mari Owen**

**Cyfwelwyd â Chyngor yr Ysgol / Disgyblion**

| **1. Hoffech chi fod yn rhan o ysgol fwy sydd â mwy o ddisgyblion?** |
| --- |
| **Sylwadau**<br><br>• Roedd pawb yn gytûn y byddai bod yn ddisgybl mewn ysgol sy'n tyfu'n beth da |

| **2. Ydych chi'n meddwl ei bod yn syniad da i'r ysgol ddod yn ysgol 3-11?** |
| --- |
| **Sylwadau**<br><br>• Bydd yn syniad da dod yn ysgol 3-11 oed oherwydd bydd y plant hŷn yn gallu helpu'r rhai llai<br>• Mae'n syniad da i blant ym Metws ddechrau dysgu Cymraeg flwyddyn yn gynnar<br>• Bydd plant 3 oed yn gallu dysgu sut i ymddwyn yn gywir yn yr ysgol, sy'n beth da |

| 3. Beth fyddai manteision ysgol 3 – 11? Beth fyddech chi’n edrych ymlaen ato fwyaf? |
| --- |
| **Sylwadau**<br>• Bydd rhieni plant 3 oed yn gallu gweithio ac ennill arian yn lle gorfod gofalu am y plant<br>• Bydd anfon plant 3 oed i’r ysgol yn golygu llai o gost o ran gofalu amdanynt<br>• Bydd mwy o ddisgyblion yn yr ysgol a bydd yr ysgol yn gallu dysgu mwy i’r plant<br>• Bydd gan yr holl ddisgyblion fwy o ffrindiau<br>• Bydd y Gwasanaeth, Clwb Mr Morgan ar ôl ysgol a’r Clwb Brecwast yn gyfle da i ddod i adnabod y disgyblion 3 oed yn well<br>• Mae digon o le ar yr iard i bawb chwarae gyda’i gilydd |

| 4. Oes unrhyw anfanteision? Oes unrhyw beth y byddech chi’n poeni amdano? |
| --- |
| **Sylwadau**<br>• Nid oedd yr un disgybl yn teimlo y byddai anfanteision yn codi o gael ysgol 3-11<br>• Efallai y bydd y plant llai yn poeni’r plant hŷn weithiau |